# Y Pwyllgor Cyllid

## FIN(3)-09-10 Papur 2

### Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) - Gwybodaeth Bellach gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Rhagair

1. Nod y papur hwn yw cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried goblygiadau ariannol posibl Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru). Dylid ystyried y papur ochr yn ochr â'r wybodaeth a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.

### Y Cefndir

2. Mae Mesur arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) yn gwneud darpariaeth i leihau maint y gwastraff a sbwriel yng Nghymru ac yn cyfrannu at ddatblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r Mesur yn ymwneud â phedwar prif faes ac mae'r papur hwn yn delio â phob un ohonynt ar wahân.

### Bagiau Siopa Untro

### Y Cefndir

3. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu cyflwyno tâl am fagiau siopa untro, gan ddefnyddio pwerau sydd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Nod y tâl hwn yw mynd i'r afael ag effeithiau bagiau siopa untro ar yr amgylchedd drwy sicrhau bod defnyddwyr yn newid eu hymddygiad. Caiff y rheoliadau drafft ar gyfer cyflwyno'r tâl eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mehefin 2010. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn edrych ar gost cyflwyno'r tâl.

4. I sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad y cyhoedd i'r syniad o godi tâl, mae hefyd yn bwysig bod yn dryloyw ynghylch y defnydd a wneir o'r derbyniadau net a gesglir drwy'r tâl a dangos bod y derbyniadau'n mynd at ddibenion gwerth chweil. Fodd bynnag, nid yw Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sicrhau bod derbyniadau net y tâl yn cael eu rhoi at ddibenion penodedig neu i bersonau penodedig.  Bydd y Mesur Gwastraff arfaethedig yn diwygio'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau a fyddai'n gosod dyletswyddau o ran y defnydd a wneir o'r enillion.

5. Nid oes unrhyw fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau a roddir gan y darpariaethau hyn yn y Mesur. Yn fy nhystiolaeth i Bwyllgor Deddfau 4, nodais fod nifer o fanwerthwyr eisoes yn codi tâl, yn wirfoddol, am fagiau siopa a'u bod yn rhoi'r refeniw net i achosion da.  Nodais fy mod am ychwanegu at yr arferion da hyn a chydweithio gyda manwerthwyr i bennu'r defnydd y dylid ei wneud o'r derbyniadau net a gesglir drwy godi'r tâl hwn. Rydym yn gweithio gyda manwerthwyr ar gytundeb gwirfoddol ynghylch y defnydd a wneir o dderbyniadau net y tâl.

6. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch diben ac effaith fwriadedig y ddarpariaeth  wedi'i nodi ym mharagraffau 3.4 - 3.13 o'r Memorandwm Esboniadol.

### Goblygiadau Ariannol

7. Mae'r amcangyfrifon gorau o gostau gweinyddol, cydymffurfiaeth a chostau eraill y darpariaethau ar gyfer bagiau siopa un tro wedi'u nodi ym mharagraffau 8.2.1 - 8.2.37 o'r Memorandwm Esboniadol.

8. Mae Tabl 1 yn dangos amcangyfrif o gostau blwyddyn gyntaf y gwahanol opsiynau a gafodd eu hystyried o ran y defnydd a wneir o enillion net y tâl. Mae nifer o gostau wedi'u nodi ar gyfer yr opsiwn gwirfoddol, sef y dull a ffefrir gan Lywodraeth y Cynulliad. Y prif gostau a nodir yw'r costau cydymffurfiaeth neu weinyddol i fusnesau neu brosiectau, er y bwriad yw y gallai'r rhain gael eu hadfer o enillion y tâl. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd y costau gweinyddol i fanwerthwyr ac elusennau/prosiectau (y gellid eu hadfer o enillion y tâl) yn gostwng yn raddol dros amser wrth i nifer y bagiau siopa untro y mae'r manwerthwyr yn eu gwerthu leihau. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn wynebu costau nad ydynt wedi'u nodi yn fersiwn gyfredol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn sgil monitro unrhyw gytundeb gwirfoddol. Amcangyfrifir y byddai'r costau hyn tua £10,000 y flwyddyn, ac mae'n debygol y byddant yn aros ar y lefel honno bob blwyddyn.

9. Mae Tabl 1 hefyd yn dangos costau cyflwyno darpariaeth y Mesur (yr opsiwn dyletswydd). Costau cydymffurfiaeth a gweinyddol fyddai'r rhan fwyaf o'r costau i'r manwerthwyr o ran trosglwyddo'r derbyniadau net at ddibenion penodedig, neu gostau rheoli'r derbyniadau net i'r sefydliadau penodedig eu hunain. Y bwriad yw y gellid didynnu unrhyw gostau gweinyddol o'r refeniw net a dderbynnid. Amcangyfrifir y bydd costau gweinyddol yr opsiwn hwn i'r sector cyhoeddus oddeutu £125,000 y flwyddyn. Yn achos yr opsiwn gwirfoddol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd y costau gweinyddol i fanwerthwyr ac elusennau/prosiectau yn gostwng yn raddol dros amser wrth i'r manwerthwyr werthu llai a llai o fagiau siopa untro. Byddai'r costau gweinyddol a chyfathrebu i Lywodraeth y Cynulliad yn gostwng yn sylweddol ar ôl y flwyddyn gyntaf, ond nid oes disgwyl i gostau monitro a gorfodi'r awdurdodau lleol newid.

10. Defnyddiodd y dadansoddiad wybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

Plastic Shopping Bags: Analysis of Levies & Environmental Impacts, Nolan-ITU Pty Ltd (ar gyfer Environment Australia), Rhagfyr 2002;

Regulatory Impact Assessment for The Environmental Levy on Plastic Bags (Scotland) Bill 2005, Llywodraeth yr Alban, Tachwedd 2005;

Astudiaeth ynghylch Bagiau Siopa Untro, adroddiad AEA ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2009.

Evaluation of the Consumer Codes Approval Scheme, Centre for Economics and Business Research Ltd (CEBR) ac Opinion Research Business for the Office of Fair Trading, Hydref 2006.

11. Defnyddiwyd data'r Gofrestr Fusnes Ryngadrannol hefyd i amcangyfrif nifer y manwerthwyr yng Nghymru (gweler paragraff 8.1.3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

12. Un o'r prif ragdybiaethau y tu ôl i'r costau hyn yw y bydd y tâl yn creu refeniw o rhwng £1 miliwn a £3 miliwn, gan ddibynnu ar lefel y tâl ac effaith y tâl ar ymddygiad defnyddwyr. Mae profiadau gwledydd eraill sydd wedi dechrau codi am fagiau siopa untro yn dangos bod nifer y bagiau siopa untro a werthwyd yn syth ar ôl i'r tâl gael ei gyflwyno wedi gostwng yn sylweddol. Gwerthwyd 90% yn llai o fagiau siopa untro yn Iwerddon. Rhagdybir, yn rhan o waith modelu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, y gwerthir 90% yn llai o'r 324 miliwn o fagiau a ddefnyddir ar hyn o bryd.

13. Mae llawer o ansicrwydd ynghylch faint o fanwerthwyr fydd yn dewis cyflwyno cynllun achrededig neu'n gwirfoddoli i roi'r refeniw net o'r tâl i brosiect amgylcheddol (neu brosiect arall). Er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd hwn, rhoddir amrediadau o gostau.

### Targedau Gwastraff

### Y Cefndir

14. Mae’r Mesur arfaethedig yn gosod targedau statudol i awdurdodau lleol ar gyfer canran y deunydd gwastraff trefol sydd i'w ailgylchu, ei baratoi i’w ailddefnyddio a'i gompostio, yn ogystal â gwneud awdurdodau lleol yn atebol i dalu cosbau os ydynt yn methu â chyrraedd y targedau hyn. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu targedau eraill mewn perthynas ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff; a rhoi cosbau am beidio â chydymffurfio â thargedau o'r fath.

15. Mae'r targedau wedi'u trafod yn fanwl gydag awdurdodau lleol a buont yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn 2009. Fe'u nodir yn "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" sef polisi strategaeth gwastraff cyffredin Llywodraeth y Cynulliad sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2010. Rhoddir rhagor o wybodaeth ynghylch diben ac effaith fwriadedig y ddarpariaeth ym mharagraffau 3.14 - 3.29 o'r Memorandwm Esboniadol.

### Goblygiadau Ariannol

16. Mae'r amcangyfrifon gorau o gostau gweinyddol, cydymffurfiaeth a chostau eraill y darpariaethau ar gyfer bagiau siopa untro wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig (paragraffau 8.2.1 - 8.2.37) sy'n atodiad i'r llythyr hwn.

17. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'i lywio gan ddau asesiad effaith a gynhaliwyd gan Eunomia Consulting ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae asesiad effaith 2010 Eunomia o'r targedau gwastraff, yn ymwneud â chyfnod o 15 mlynedd (2009/10 tan 2024/25) ac mae'n ychwanegu at waith blaenorol a wnaed ar ran Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth leol Cymru yn 2007, a oedd yn mesur cwmpas targedau gwastraff trefol Cymru. [Dangosir yr holl ffigurau mewn termau real 2009/10 a defnyddiwyd y datchwyddwyr CMC i gynyddu costau astudiaeth 2007].

18. O safbwynt costau cydymffurfiaeth, mae'n annhebygol y bydd gosod targedau statudol yn cael unrhyw effaith ariannol tan 2013/14. Daeth y gwaith modelu i'r casgliad y byddai'r cyfraddau ailgylchu yn cyrraedd uchafbwynt o 52% ac yn sefydlogi ar y gyfradd hon o ganlyniad i'r ymyriadau polisi cyfredol (gweler paragraffau 8.2.21 - 8.2.23 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol). Mae hynny oherwydd cymorth ariannol sylweddol Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol fabwysiadu arferion gwastraff mwy cynaliadwy ac effaith gynyddol trethi tirlenwi o ran hybu cyfraddau ailgylchu uwch. Mae costau uwch tirlenwi yn ffactor economaidd pwysig sy'n annog pobl i beidio â defnyddio'r dull hwn. Bydd codi treth tirlenwi bob blwyddyn yn codi'r cyfraddau ailgylchu.

19. Mae Tabl 4 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau cydymffurfiaeth tebygol sicrhau cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024/25. Mae'r Tabl yn dangos y byddai cyflawni'r cyfraddau ailgylchu'n achosi costau uwch i'r awdurdodau lleol. Byddai'r costau hyn yn deillio o, er enghraifft, newidiadau i gostau casgliadau wrth ymyl y ffordd, costau casglu o safleoedd amwynder dinesig a chostau casglu gwastraff swmpus. Fodd bynnag, gwrthbwysir hyn gan y gostyngiadau yng nghostau rheoli gwastraff gweddilliol a waredir mewn safleoedd tirlenwi neu a hylosgir, a buddion economaidd ac amgylcheddol y cyfraddau ailgylchu uwch.

20. Mae paragraffau 8.2.28 - 8.2.30 yn rhoi amcangyfrifon o oblygiadau ariannol posibl y cosbau am beidio â chyrraedd targedau o dan y Mesur a'r costau gweinyddol.

21. Cwblhawyd y dadansoddiad drwy ddefnyddio Hermes, sef model llif gwastraff Eunomia, sy'n cynnwys data o wahanol setiau data gwastraff o bob rhan o'r DU. Mae'r dull hwn yn helpu i fodelu costau cylch bywyd cyfan ailgylchu mathau gwahanol o wastraff drwy ddulliau rheoli gwastraff gwahanol er mwyn pennu'r costau sylfaenol. Defnyddiwyd data gan WasteDataFlow (WDF) i bennu maint y data gwastraff trefol a gynhyrchir yng Nghymru a beth sydd yn y gwastraff hwnnw.

22. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, gwnaed y rhagdybiaethau canlynol yn y dadansoddiad:

Bydd cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol yn cyrraedd uchafbwynt o 52% yn 2012/13 ac yn aros ar y gyfradd honno;

Mae'r targedau ailgylchu yn cynnwys ailgylchu lludw gwaelod. Rhagdybir y bydd y gyfradd o ludw gwaelod a ailgylchir fel agregau

oddeutu 3% yn 2024/25, gan ddod â’r ffigur ar gyfer ailgylchu deunyddiau heblaw lludw gwaelod i lawr i 67% yn 2024/25;

Nid yw’r targedau ailgylchu yn cynnwys ailgylchu gwastraff anadweithiol o weithgareddau adeiladu a dymchwel.

At ddibenion y dadansoddiad hwn, diffiniwyd gwastraff trefol fel gwastraff a gesglir gan, neu ar ran, awdurdodau lleol;

Rhagdybiwyd (ar gais Llywodraeth y Cynulliad) y byddai’r gwastraff a achosir yn newid -1.0% y flwyddyn, yn unol â’r tueddiadau diweddar;

Nododd y gwaith modelu y buddion amgylcheddol canlynol ar ffurf arbedion ariannol:

Newidiadau yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr;

Newidiadau mewn llygryddion aer confensiynol;

Newidiadau yn gysylltiedig â rhoi compost / gweddillion treulio anerobig ar y tir.

Nid yw'r effeithiau amgylcheddol canlynol wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad oherwydd diffyg data dibynadwy:

Newidiadau o ran y diffyg mwynder a brofir;

Newidiadau yn yr allyriadau i’r tir;

Newidiadau yn yr allyriadau i’r dŵr;

Newidiadau yn yr allyriadau llygryddion aer anghonfensiynol (er enghraifft, bioaerosolau).

Mae Eunomia wedi nodi mai ychydig o reswm sydd i gredu y byddai’r allyriadau hyn wedi effeithio ar y dadansoddiad.

Nid oes data wedi'i ddilysu ar gael ar gyfer arbedion yng nghostau amgylcheddol pob deunydd (er enghraifft, carped ac isgarped, batris plwm/asid, olew a deunyddiau peryglus posibl eraill). Yn achos y deunyddiau hyn, defnyddiodd Eunomia werthoedd nominal o £5 y dunnell ar gyfer y buddion.

23. Mae'r gwaith modelu sy'n ategu'r dadansoddiad o gostau a buddion posibl y ddarpariaeth hon yn seiliedig ar fodel llif gwastraff cadarn. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod bod anfanteision ynghlwm â modelu cost gweithredu targedau dros gyfnod o 15 mlynedd.

### Tirlenwi

### Y Cefndir

24. Mae’r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wahardd neu gyfyngu ar waredu rhai mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Mae diben y darpariaethau ynghylch tirlenwi a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael wedi'u nodi ym mharagraffau 3.30 - 3.41 o'r Memorandwm Esboniadol.

25. Ni chynigir manylion ynghylch unrhyw waharddiadau na chyfyngiadau ar hyn o bryd. Gan fod angen cynnal gwaith manwl iawn i asesu effaith, costau a buddion gwahardd neu gyfyngu ar waredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond yn gallu dadansoddi costau a buddion cyffredinol, ym mharagraffau 8.3.1 - 8.3.24. Mae hwn yn nodi’r math o gostau gweinyddol, costau cydymffurfiaeth a chostau eraill tebygol y bydd yn rhaid eu hysgwyddo yn sgil cyflwyno gwaharddiad, a hefyd pwy fyddai’n gorfod talu’r costau hynny, ond nid yw'n cynnwys asesiad o'r costau posibl.

26. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn cynnal ymgynghoriad ar y cyd ynghylch polisi i osod cyfyngiadau ar waredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 18 Mawrth a bydd yn dod i ben ar 10 Mehefin. Mae'r papur ymgynghori yn cynnwys crynodebau, o safbwynt y DU, o gostau a buddion gwahardd gwaredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi. Paratowyd y dadansoddiad hwn o gostau a buddion yn rhan o astudiaeth ddichonoldeb gan WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) a gomisiynwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig a DEFRA i edrych ar y potensial ar draws y DU ar gyfer gwahardd tirlenwi neu osod cyfyngiadau arno. Mae'r pecyn ymgynghori ar gael yn h

ttp://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/landfillrestrictions/?lang=cy

27. Pe bai Llywodraeth y Cynulliad, ar sail yr ymgynghoriad polisi hwn a'r gwaith ymchwil cysylltiedig, yn penderfynu gwahardd neu osod cyfyngiadau ar waredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, byddai’r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Mesur arfaethedig hwn yn eu galluogi i gynnig rheoliadau i’r perwyl hwnnw. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yn cael ei gynnal ar unrhyw reoliadau drafft sy’n cynnig gwahardd neu gyfyngu ar waredu mathau penodol o wastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Byddai'r Asesiad yn edrych ar y costau a'r buddion i Gymru. Byddai angen hefyd iddo ystyried mannau gwaredu posibl ar gyfer deunyddiau gwastraff sydd wedi’u gwahardd neu eu cyfyngu, yn ogystal â’r goblygiadau ar gyfer y seilwaith rheoli gwastraff yng Nghymru. Bydd y rheoliadau o dan y Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar y rheoliadau drafft a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig.

### Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle

## Y Cefndir

28. Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau ffioedd a chodi tâl mewn perthynas â'r Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) a fydd yn cael eu cyflwyno yn y sector adeiladu a dymchwel yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn ailddatgan pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru o dan adran 54 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i wneud rheoliadau sy'n gwneud Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn ofynnol.

29. Yn ystod hydref 2010, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ymgynghori ar reoliadau drafft ynghylch Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. Mae diben y darpariaethau ynghylch tirlenwi a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael wedi'u nodi ym mharagraffau 3.42 - 3.54 o'r Memorandwm Esboniadol.

## Goblygiadau Ariannol

30. Rhoddir amcangyfrifon o'r costau gweinyddol, cydymffurfiaeth a chostau eraill y darpariaethau ynghylch cyflwyno systemau ffioedd a chodi tâl ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (paragraffau 8.4.1 - 8.4.55). Gan mai pŵer galluogi sydd yn y Mesur, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o'r costau lefel-uchel. Bydd angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl ar gyfer unrhyw reoliadau drafft sy'n cyflwyno systemau ffioedd a chodi tâl.

31. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddarpariaeth hon yn seiliedig ar adroddiad Eunomia Consulting. Mae'r dadansoddiad wedi'i gwblhau ar gyfer cyfnod 10 mlynedd rhwng 2009/10 a 2019/20. Mae'r costau wedi'u rhannu yn ôl costau blwyddyn gyntaf a chostau rheolaidd. Rhoddir crynodeb o'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y costau hyn yn Nhabl 8 a 9 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

32. Defnyddiwyd yr wybodaeth o'r hysbysiadau rheoli adeiladu diweddaraf i amcangyfrif nifer y Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle sydd i'w paratoi bob blwyddyn (paragraff 8.4.20). Cyfrifwyd opsiwn 2 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y sail bod 2,200 o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu paratoi bob blwyddyn. Seiliwyd y ffigur hwnnw ar amcangyfrif o nifer yr hysbysiadau rheoli adeiladu dros drothwy o £300,000 a gyflwynir bob blwyddyn yng Nghymru. Cyfrifwyd opsiwn 3 yr Asesiad ar y sail bod 19,800 o Gynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn cael eu paratoi bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwn wedi ei seilio ar amcangyfrif o nifer yr hysbysiadau rheoli adeiladu a gyflwynir bob blwyddyn yng Nghymru. Felly mae'r gwahaniaeth yng nghostau'r ddau opsiwn yn adlewyrchu cymhlethdod cymharol y gwahanol opsiynau a'r trothwyon rhagdybiedig lle byddai Cynllun Rheoli Gwastraff Safle yn ofynnol. Mae costau defnyddio rheoleiddwyr gwahanol (awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd) wedi'u modelu ar gyfer pob opsiwn.

33. Mae'r gwaith yn parhau ar y rheoliadau a fydd yn cyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru, a chaiff ei lywio gan ddadansoddiad manwl o'r gost/budd ac asesiad effaith manwl. Mae'r gwaith ar gyfer paratoi'r rheoliadau yn cynnwys ystyried maint priodol ar gyfer y prosiect (neu drothwy) lle bydd Cynllun Rheoli Gwastraff Safle yn ofynnol. O ganlyniad, mae llawer o ansicrwydd ynghylch nifer y prosiectau adeiladu y bydd y system ffioedd a chodi tâl yn gymwys iddynt. Felly dylid cymryd mai amcangyfrifon lefel-uchel yw'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft.